Asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg

Cynnwys

Crynodeb o'r polisi 2

Polisïau a ddisodlir gan y ddogfen hon 2

Cwmpas 2

Yr hyn y mae'r ddogfen hon yn ei gwmpasu 2

Yr hyn nad yw'r ddogfen hon yn ei gwmpasu 2

Dogfennaeth Gysylltiedig 3

Egwyddorion Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored 3

Cyflwyniad 4

Polisi 4

1. Diben 4
2. Egwyddorion 5
3. Canllawiau myfyrwyr ar gyfer cyflwyno gwaith yn Gymraeg 5

Gweithdrefn 6

4. Cyflwyno TMA/emTMA/EMA yn Gymraeg 6
5. Sefyll arholiad yn Gymraeg 7
6. Gweithredu a gorfodi'r weithdrefn 7
7. Delio ag unrhyw broblemau 8

Rhestr Termau 9

Gwneud cais am fformatau amgen neu ganllawiau pellach 10

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cyfarwyddwr Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Yn weithredol o: 1 Hydref, 2018	Dyddiad adolygu: 1 Hydref, 2021

Mae'r Brifysgol Agored yn gorfforedig drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), yn elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Mae'r Brifysgol Agored wedi'i hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgaredd eilaidd, sef broceru credyd.

Crynodeb o’r polisi

Mae'r polisi hwn yn diffinio'r canlynol:

- Sut mae'r Brifysgol Agored yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mewn perthynas â chyflwyno asesiad neu sefyll arholiad yn Gymraeg.
- Y weithdrefn y dylai myfyriwr ei dilyn er mwyn cyflwyno asesiadau neu sefyll arholiadau yn Gymraeg.
- Sut bydd Y Brifysgol Agored yn prosesu asesiadau a gaiff eu cyflwyno neu arholiadau a gaiff eu sefyll yn Gymraeg.

Polisïau a ddisodlir gan y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r polisi fel dogfen ar wahân am y tro cyntaf. Mae'n disodli Asesu drwy gyfrwng y Gymraeg – Canllawiau

Cwmpas

Yr hyn y mae'r ddogfen hon yn ei gwmpasu

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i fyfyrwyr Y Brifysgol Agored sy'n byw yng Nghymru sydd am gyflwyno aseiniadau a/neu sefyll arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n berthnasol i bob modiwl, p'un a gaiff ei astudio ar wahân neu fel rhan o gymhwyster.

Dylai unrhyw fyfyriwr sydd am gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg gyfeirio at y weithdrefn ganlynol: Canllawiau'r myfyrwyr ar gyfer cyflwyno gwaith yn Gymraeg a dilyn y camau gweithredu angenrheidiol a amlinellir ynddi.

Dylai'r staff gyfeirio at ganllawiau'r staff ar gyfer ymdrin â gwaith a gaiff ei gyflwyno yn Gymraeg.

Yr hyn nad yw'r ddogfen hon yn ei gwmpasu

Mae'r polisi hwn ond yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru. Ym mhob achos arall, dylai myfyrwyr gyflwyno eu gwaith yn Saesneg (neu'r iaith briodol fel sy'n ofynnol os ydynt yn astudio modiwl ieithoedd modern).

Dogfennaeth Gysylltiedig

Mae'r ddogfennaeth ganlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth mewn perthynas ag elfennau o'r polisi, ond gellir darllen y polisi yn annibynnol:

- Assessment Handbook (Llawlyfr Asesu – ar gael yn Saesneg yn unig)
- Asesu drwy gyfrwng y Gymraeg – Canllawiau
- Exam arrangements booklet (Llyfryn trefniadau arholiadau - ar gael yn Saesneg yn unig)
- Online EMA guidelines (Canllawiau ar-lein Tasg Diwedd Modiwl - ar gael yn Saesneg yn unig)
- Research Degrees Handbook (Llawlyfr Graddiau Ymchwil - ar gael yn Saesneg yn unig)
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017
- Hysbysiad Cydymffurfio Y Brifysgol Agored i Safonau'r Gymraeg
- Safonau'r Gymraeg – Sut y byddwn yn cydymffurfio â'r safonau
- Y Brifysgol Agored a'r iaith Gymraeg
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Ffurflen gais cadw modiwlau i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg

---

Egwyddorion Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored

Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion canlynol a nodir yn Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored:

- Egwyddor 1: Rydym yn trin ein gilydd ag urddas a pharch
- Egwyddor 2: Ein nod yw ysbrydoli a galluogi dysgu
- Egwyddor 3: Rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ddysgu
- Egwyddor 4: Gweithiwn gyda'n gilydd er mwyn sicrhau cenhadaeth y Brifysgol ac i hyrwyddo gwerthoedd y Brifysgol

Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn esbonio cyfrifoldebau Y Brifysgol Agored fel rhan o'i hysbysiad cydymffurfio a gyflwynwyd gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Hysbysiad Cydymffurfio Y Brifysgol Agored â Safonau'r Gymraeg yn nodi'r canlynol:

> "Rhaid ichi hysbysu eich myfyrwyr y caniateir i unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir ichi fel rhan o asesiad neu arholiad gael ei gyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd gwaith a gyflwynir ichi yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Saesneg fel rhan o'r asesiad hwnnw neu'r arholiad hwnnw."
>
> "Rhaid ichi beidio â thrin unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Gymraeg fel rhan o asesiad neu arholiad yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Saesneg fel rhan o'r asesiad hwnnw neu'r arholiad hwnnw."

Mae'r polisi hwn hefyd yn amlinellu'r weithdrefn y dylech ei dilyn er mwyn cyflwyno gwaith yn Gymraeg yn unol â'r safonau cyflenwi gwasanaethau uchod.

Hefyd, dylech gyfeirio at y polisi hwn os hoffech gyflwyno gwaith wedi'i asesu a/neu sefyll arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Polisi

1. Diben

1.1 Diben y polisi hwn yw amlinellu telerau Hysbysiad Cydymffurfio 'r Brifysgol Agored â Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â chyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.2 Nodau'r polisi hwn yw:

- galluogi myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru i gyflwyno asesiadau a/neu sefyll arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- sicrhau na chaiff asesiadau a gyflwynir/arholiadau a gaiff eu sefyll drwy gyfrwng y Gymraeg eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gaiff eu cyflwyno/sefyll drwy gyfrwng y Saesneg;
- egluro'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno asesiadau neu sefyll arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

2. Egwyddorion

2.1 Os ydych chi'n fyfyriwr sy'n byw yng Nghymru, gallwch gyflwyno eich aseiniadau a/neu sefyll eich arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwch nad yw'n bosibl cwblhau Aseiniad Rhyngweithiol a Gaiff ei Marcio gan Gyfrifiadur (iCMA) yn Gymraeg.

2.2 Ni chaiff unrhyw waith a gyflwynir gennych yn Gymraeg fel rhan o asesiad neu arholiad ei drin yn llai ffafriol na gwaith a gyflwynir yn Saesneg. Caiff eich gwaith ei facio gan siaradwr Cymraeg lle bynnag y bo'n bosibl. Lle nad yw'n bosibl, caiff eich gwaith ei gyfieithu gan wasanaeth cyfieithu proffesiynol a'i farcio, yn Saesneg, gan siaradwr di-Gymraeg.

2.3 Os bydd angen i ni gyfieithu eich gwaith i'r Saesneg er mwyn ei farcio, ni fydd unrhyw oedi wrth gael adborth gan eich tiwtor.

2.4 Mae disgwyl i diwtoriaid farcio a dychwelyd Aseiniadau a Gaiff eu Marcio gan Diwtoriaid (TMAs) i fyfyrwyr o fewn deg diwrnod gwaith, fel y nodir yn adran "Late return of marked TMAs" yn yr Assessment Handbook.

2.5 Bydd Y Brifysgol Agored yn marcio Aseiniadau Diwedd Modiwl(EMAs), TMAs diwedd modiwl (emTMAs) ac arholiadau erbyn y dyddiad a nodir ar StudentHome ar gyfer rhyddhau canlyniadau modiwl, a chewch wybod dros e-bost pryd fydd eich canlyniadau ar gael ar StudentHome (gweler yr adran "Getting your result" yn yr Assessment Handbook.)

3. Canllawiau myfyrwyr ar gyfer cyflwyno gwaith yn Gymraeg

3.1 Mae'r wybodaeth ganlynol yn berthnasol i holl fodiwlau'r Brifysgol Agored, yn amodol ar ofynion penodol pob modiwl, y gellir dod o hyd iddynt ar wefan unigol pob modiwl. O dan amgylchiadau penodol, er enghraifft ar gyfer modiwlau iaith, efallai y bydd gofyn i fyfyrwyr gyflwyno aseiniadau mewn iaith benodol e.e. yr iaith y maent yn ei hastudio, yn hytrach na Saesneg neu Gymraeg.

3.2 Gallwch roi gwybod i'r Brifysgol Agored os hoffech gyflwyno aseiniadau neu sefyll arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, naill ai wrth gofrestru drwy gwblhau Ffurflen gofrestru cyfrwng Cymraeg, neu dros y ffôn, neu drwy ddiweddaru eich dewisiadau ar eich tudalen StudentHome ar unrhyw adeg yn ystod eich astudiaethau.

3.3 Nid yw cyflwyno hysbysiad o'ch dymuniad i gyflwyno gwaith yn Gymraeg yn gyfystyr ag ymrwymiad rhwymol ar eich rhan. Mae'n dal i fod yn bosibl i chi gyflwyno unrhyw un o'ch aseiniadau (neu rannau ohonynt) yn Gymraeg neu Saesneg. Mae hefyd yn bosibl i chi gyflwyno gwaith yn Gymraeg heb roi gwybod ymlaen llaw. Fodd bynnag, bydd rhoi gwybod yn gynnar yn ei gwneud hi'n haws i'r Brifysgol Agored ddarparu'r rhan hon o'i gwasanaeth.

3.4 Os byddwch yn rhoi gwybod i'r Brifysgol Agored eich bod yn dymuno cyflwyno'ch holl aseiniadau neu rai ohonynt yn Gymraeg a/neu sefyll arholiad yn Gymraeg, byddwn yn eich rhoi mewn grŵp tiwtor â thiwtor sy'n siarad Cymraeg lle bynnag y bo'n bosibl.

3.5 Byddwn y rhoi gwybod i'ch tiwtor y byddwch yn cyflwyno'ch gwaith i gyd, neu rywfaint ohono, yn Gymraeg.

Gweithdrefn

4. Cyflwyno TMA/emTMA/EMA yn Gymraeg

4.1 Os oes gennych diwtor sy'n siarad Cymraeg a all farcio asesiadau a gaiff eu cyflwyno yn Gymraeg, dylech gyflwyno eich Aseiniadau a Gaiff eu Marcio gan Diwtoriaid (TMAs), TMAs diwedd modiwl (emTMAs) ac Aseiniadau Diwedd Modiwl (EMA) fel yr amlinellir yn y dogfennau canllaw Submitting a Tutor Marked Assignment (TMA) (byddai'r weithdrefn TMA hefyd yn berthnasol wrth gyflwyno emTMA) a Submitting an End of Module Assessment (EMA) . Bydd eich tiwtor yn marcio'r gwaith yn Gymraeg ac yn ei ddychwelyd drwy'r system eTMA yn unol â'r canllawiau asesu arferol fel y nodir yn yr Assessment Handbook.

4.2 Os na all eich tiwtor farcio gwaith yn Gymraeg, yna dylech ddilyn y weithdrefn arferol o hyd ar gyfer cyflwyno gwaith, ond dylech hefyd anfon copi o'r asesiad fel atodiad e-bost i wales-support@open.ac.uk, gan ddefnyddio'r pennawd testun "**Cyflwyniad Cymraeg/Welsh Language Submission**", fel bod modd ei gyfieithu gan wasanaeth cyfieithu proffesiynol a'i farcio gan y tiwtor. Bydd eich tiwtor yn marcio'r gwaith yn Saesneg ac yn ei ddychwelyd i chi yn unol â'r gweithdrefnau a'r canllawiau asesu safonol.

5. Sefyll arholiad yn Gymraeg

5.1 Os byddwch wedi rhoi gwybod i'r Brifysgol Agored eich bod am sefyll eich arholiad yn Gymraeg wrth gofrestru, neu ar unrhyw bwynt hyd at ddau fis cyn dyddiad yr arholiad, byddwch yn gallu cael sgript arholiad cyfrwng Cymraeg yn ystod yr arholiad. Os hoffech gael sgript arholiad cyfrwng Cymraeg, bydd angen i chi anfon e-bost i wales-support@open.ac.uk o leiaf ddau fis cyn dyddiad eich arholiad, gan ddefnyddio'r pennawd testun "**Ymgais am sgript arholiad Cymraeg/Welsh medium exam script request**" gan nodi cod a theitl y modiwl, dyddiad ac amser, a lleoliad eich arholiad. Gallwch ddewis cael sgript arholiad cyfrwng Saesneg os byddwch yn dymuno, ac ysgrifennu eich atebion yn Gymraeg. Byddech yn cyflwyno eich llyfryn atebion ar ddiwedd yr arholiad yn unol â'r drefn arferol.

5.2 Bydd eich gwaith yn cael ei farcio gan siaradwr Cymraeg lle bynnag y bo'n bosibl. Lle nad yw'n bosibl, caiff eich gwaith ei gyfieithu gan wasanaeth cyfieithu proffesiynol a'i farcio, yn Saesneg, gan siaradwr di-Gymraeg. Byddwch yn cael canlyniad eich modiwl erbyn y dyddiad a nodir ar StudentHome. Os hoffech drafod manylion pellach ynglŷn â sut y byddai hyn yn gweithio cyn gwneud penderfyniad, cysylltwch â Chynghorydd Addysgol y Gymraeg yn eich Tîm Cymorth Myfyrwyr.

---

6. Gweithredu a gorfodi'r weithdrefn

6.1 Os byddwch yn rhoi gwybod i ni eich bod yn bwriadu cyflwyno gwaith i'w asesu yn Gymraeg, bydd Y Brifysgol Agored yn cofnodi'r wybodaeth hon yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Byddwn yn cadw'r wybodaeth hon er mwyn hwyluso'r broses weinyddu ar gyfer marcio gwaith cyfrwng Cymraeg ac i fonitro nifer y myfyrwyr sy'n cyflwyno eu gwaith yn Gymraeg. Mae mwy o wybodaeth am y ffordd mae'r Brifysgol Agored yn defnyddio data personol myfyrwyr ar gael yn yr Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr.

6.2 Bydd Y Brifysgol Agored yn goruchwylio'r broses gyfieithu a marcio er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei farcio o fewn y terfynau amser gofynnol ac nad ydych o dan anfantais mewn unrhyw ffordd o ganlyniad i'r broses.

7. Delio ag unrhyw broblemau

7.1 Os byddwch yn cael unrhyw broblemau mewn perthynas â'r weithdrefn hon, dylech gysylltu â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr er mwyn eu datrys. Os byddwch yn cael problemau o hyd ar ôl cysylltu â'r Tîm Cymorth Myfyrwyr, yna dilynwch Weithdrefn gwyno'r Brifysgol Agored.

7.2 Gallwch apelio i Gomisiynydd y Gymraeg os byddwch o'r farn nad yw'r Brifysgol Agored yn cydymffurfio â thelerau ei Chynllun Cydymffurfio â'r Gymraeg.

Rhestr Termau

Assessment Handbook

Dogfen a luniwyd gan Y Brifysgol Agored sy'n amlinellu ein polisïau mewn perthynas â'r tasgau asesu gwahanol y bydd yn rhaid i chi eu cwblhau o bosibl ar gyfer eich modiwl, ac sy'n esbonio'r canlyniadau a/neu'r canlyniad modiwl a gewch ar ddiwedd pob un.

Hysbysiad Cydymffurfio

Mae 'hysbysiad cydymffurfio' yn ddogfen a gyflwynir gan Gomisiynydd y Gymraeg i amlinellu'r safonau (yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) y mae'n rhaid i sefydliadau gydymffurfio â nhw.

EMA

Asesiad diwedd modiwl. Ar nifer o fodiwlau, mae'n rhaid i chi weithio'n annibynnol i lunio darn estynedig o waith yn hytrach na sefyllfa arholiad ar ddiwedd eich cyfnod astudio. Er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd, cyfeirir at y traethodau, prosiectau, portffolios, traethodau hir, asesiadau ac ati hyn yn gyffredinol fel aseiniadau diwedd modiwl (EMAs)

emTMA

TMA diwedd modiwl (gweler isod)

StudentHome

Gwefan sy'n brif ffynhonnell o wybodaeth i fyfyrwyr mewn perthynas ag astudio yn Y Brifysgol Agored.

TMA

Aseiniadau a Gaiff eu Marcio gan Diwtoriaid. Fel rhan o'r dull addysgu ar y rhan fwyaf o fodiwlau, bydd yn rhaid i chi gyflwyno aseiniadau ysgrifenedig i'ch tiwtor. Gelwir y rhain yn aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid.

Comisiynydd y Gymraeg

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a gosod safonau ar sefydliadau.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r rhain yn ofynion cyfreithiol rwymol sy'n berthnasol i sefydliadau penodol (gan gynnwys Y Brifysgol Agored) sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru. Mae Safonau'r Gymraeg yn esbonio'r disgwyliad i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwahanol, ac yn sylfaen i'r Hysbysiadau Cydymffurfio a gyflwynir i bob sefydliad perthnasol.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ddeddfwriaeth sy'n rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Golyga hyn na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac er mwyn cyflawni hyn mae'r mesur yn gosod dyletswyddau ar sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r safonau ymddygiad hyn wedi'u nodi yn Safonau'r Gymraeg.

Gwneud cais am fformatau amgen neu ganllawiau pellach

Am ganllawiau penodol ar drefnu i gyflwyno eich gwaith yn Gymraeg, neu os bydd angen y ddogfen hon ar fformat amgen, cysylltwch â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr ar 029 20471170 neu anfonwch neges e-bost i wales-support@open.ac.uk. Os ydych yn astudio ar gyfer cymhwyster Prentisiaeth Gradd, dylech gysylltu â'r Tîm Cymorth Myfyrwyr a fydd yn cydgysylltu â'r Tîm Cyflwyno Prentisiaeth fel y bo angen.

Os bydd gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r ddogfen bolisi hon a sut y gellir ei gwella, cyflwynwch y rhain i SPR-Policy-Team@open.ac.uk.